

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?

Chwefror 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddMADY@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddMADY](https://twitter.com/SeneddMADY)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?

Chwefror 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Cytunwyd ar ei gylch gwaith ar 15 Medi 2016 ac mae ar gael yma: www.cynulliad.cymru/SeneddMADY

Cadeirydd y Pwyllgor:



David Rees AC
Llafur Cymru
Aberavon

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



Michelle Brown AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Jane Hutt AC
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



Mark Isherwood AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Eluned Morgan AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Jeremy Miles AC
Llafur Cymru
Castell-nedd

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	7
Ein barn ni	8
1. Cyflwyniad	11
2. Cynllunio sefyllfaoedd ac ymgysylltu	12
2.1. Cynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd Brexit.....	12
2.2. Bargen ai peidio?.....	14
2.3. Aseidiadau Effaith	17
2.4. Ymgysylltu a chyfathrebu	18
3. Parodrwydd gwasanaethau cyhoeddus a'r economi	21
3.1. Parodrwydd mewn perthynas â goblygiadau ariannol Brexit.....	21
3.2. Newidiadau i reolau mewnfudo	22
3.3. Goblygiadau ar gyfer cydraddoldebau	24
3.4. Goblygiadau ar gyfer iechyd.....	24
3.5. Ymchwil ac arloesi.....	25
3.6. Parodrwydd busnes	26
Atodiad A - Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	29
Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	30

Rhagair y Cadeirydd

Bellach, mae dros bedwar mis ar bymtheg ers y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd a phenderfyniad dilynol y bobl. Ym mis Mawrth, byddwn yn nodi blwyddyn ers i Lywodraeth Cymru gychwyn hysbysiad ymadael Erthygl 50, sy'n gadael 12 mis yn unig nes bod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cam cyntaf y trafodaethau wedi cyrraedd pwynt lle gwnaed cynnydd boddhaol tuag at sicrhau cytundeb gwleidyddol rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar dair agwedd ar ymadawiad y DU ac er bod llawer ar ôl i'w drafod, mae mwy o sylw'n cael ei roi i nifer o gwestiynau ynghylch sut y mae Cymru'n paratoi ar gyfer Brexit.

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, aethom ni fel Pwyllgor ati i ymchwilio i sut y dylai Cymru, a Llywodraeth Cymru yn arbennig, fod yn paratoi ar gyfer Brexit. Roedd ansawdd ein sylfaen dystiolaeth yn llawer gwell yn sgil ein hymgyngoriad traddodiadol a'n sesiynau tystiolaeth lafar yn y Senedd, a'n hymweliadau i siarad â rhanddeiliaid yng Nghaerllion, Prifysgol Abertawe a Llanelli. Hoffem ddiolch yn ddiffuant i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn.

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym wedi gweithio gyda'r gobaith y bydd y trafodaethau ar Erthygl 50 yn dod i ben gyda chanlyniad llwyddiannus i bawb. Fodd bynnag, nid ydym yn osgoi mynd i'r afael â'r posibilrwydd o sefyllfa lle bydd 'ddim bargaen' ar 29 Mawrth 2019. Er ein bod yn glir nad yw hwn yn ganlyniad y byddem yn ei ddymuno, rydym yn credu, gan fod hyn yn bosibilrwydd o hyd, fod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy o ran cynllunio senarios, gan gynnwys cynllunio ar gyfer 'dim bargaen' er mwyn paratoi Cymru. Mae gan Lywodraethau, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, mewn mannau eraill yn yr UE, a'r Comisiwn Ewropeaidd ei hun, baratoadau ar waith ar gyfer canlyniad o'r fath, felly pam nad yw Cymru wedi gwneud yr un peth.

Canfu ein hymchwiliad hefyd fod angen arweiniad cryfach gan Lywodraeth Cymru ar bobl ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru o ran sut y dylent fod yn paratoi ar gyfer Brexit. Yn arbennig, byddai busnesau fel gweithgynhyrchu a ffermio yn croesawu rhagor o wybodaeth am effeithiau posibl Brexit. Yn yr un modd, o ran ymgysylltu, er bod enghreifftiau o arfer da, canfuwyd bod angen gwneud rhagor i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo drwy sefydliadau i'r staff a'r darparwyr gwasanaeth ar y rheng flaen.

Yn olaf, clywsom lawer o bryderon sectoraidd, yn enwedig ym maes iechyd, addysg uwch a chydaddoldeb. Wrth eu cynnwys yn ein hadroddiad, rydym yn gobeithio dod â nhw i sylw Llywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn datblygu rhai o'r haenau hyn fel rhan o'n gwaith ar berthynas Cymru yn y dyfodol gydag Ewrop a hefyd fel rhan o'n rhaglen waith ehangach yn y dyfodol.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ar frys paramedrau tebygol gwahanol sefyllfaoedd Brexit, gan gynnwys “sefyllfa dim bargaen”, ac adrodd ar gynnydd o fewn 6 mis.....Tudalen 17

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r naw dadansoddiad sectoraidd a ddisgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a chanlyniad yr ymchwil sydd i ddod gan Ysgol Fusnes Caerdydd.....Tudalen 17

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella cyfathrebu â sefydliadau unigol trwy annog mwy o gyrff cynrychioliadol i raeadru gwybodaeth i'r sefydliadau hynny. Rydym hefyd yn argymell bod sefydliadau unigol yn ymgymryd ag ymgysylltu dwy ffordd ynghylch Brexit o fewn eu strwythurau eu hunain.Tudalen 20

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad clir a hygyrch i fusnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar yr hyn y gallai goblygiadau gwahanol sefyllfaoedd Brexit, gan gynnwys sefyllfa “dim bargaen”, ei olygu i'r sefydliadau hynny. Dylai'r arweiniad hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.....Tudalen 20

Argymhelliad 5. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio eglurder gan Lywodraeth y DU ar sut y byddai'r Gronfa Rhannu Ffyniant arfaethedig yn cael ei dyrannu a'i gweinyddu..... Tudalen 22

Argymhelliad 6. Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru - ar y cyd â'r Gweithgor Addysg Uwch - gyhoeddi unrhyw waith a gynhaliwyd hyd yn hyn wrth adolygu ei strategaeth mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi yn y sector addysg uwch i ystyried goblygiadau Brexit yn y maes hwn.....Tudalen 26

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'n hadroddiad sut mae'n bwriadu gwario'r dyraniadau canlyniadol a ragwelir fydd yn codi o wario arian ar lefel y DU i baratoi ar gyfer Brexit ac yn egluro a fydd y rhain yn cael eu neilltuo ar gyfer cefnogi gweithgareddau mewn perthynas â Brexit yng Nghymru.....Tudalen 28

Ein barn ni

Rydym yn pryderu am oblygiadau ansicrwydd parhaus ynglŷn â chanlyniad y trafodaethau Brexit rhwng Llywodraeth y DU a'r UE yn y pen draw, ac yn cydnabod yr her y mae hyn yn ei chyflwyno o ran parodrwydd Llywodraeth Cymru, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus..... Tudalen 14

Rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen â chynllunio ar gyfer Brexit yw ar lefel Cymru gyfan, ac y dylai Llywodraeth Cymru arwain ar hynny..... Tudalen 14

Rydym yn cydnabod bod y posibilrwydd o 'ddim bargaen' yn y trafodaethau Brexit ac mae gennym bryderon difrifol ynghylch y goblygiadau (y mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn nes ymlaen yn yr adroddiad) y gallai hyn eu cael ar wasanaethau cyhoeddus Cymru ac economi Cymru..... Tudalen 16

Rydym hefyd yn ymwybodol bod llywodraethau (gan gynnwys ar lefel is-wladwriaeth) mewn manau eraill yn yr UE, a'r Comisiwn Ewropeaidd ei hun, yn cynllunio ar gyfer sefyllfa "dim bargaen" fel un o'r canlyniadau posibl yn y broses Brexit..... Tudalen 16

Rydym yn cytuno y dylid ceisio trefniadau pontio, fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi barn Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi mai ychydig o werth fydd i drefniadau pontio o'r fath os na chytunir arnynt yn chwarter cyntaf 2018. Rydym hefyd yn cydnabod, er bod y ddwy ochr (o'r trafodaethau) yn cydnabod bod angen cyfnod pontio mae amwysedd yn parhau o ran penderfynu ar y pwynt gorffen penodedig y bydd y DU yn y pen draw yn pontio iddo..... Tudalen 16

Mae ymdeimlad clir o'r dystiolaeth nad oes gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i baratoi'n ddigonol ar gyfer Brexit. At hynny, mae diffyg eglurder gan Lywodraeth y DU, a'r ystod eang posibl o sefyllfaoedd a allai godi o hyd hefyd yn rhwystro gallu gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector, ac eraill yn sylweddol o ran cynllunio a pharatoi'n ddigonol ar gyfer Brexit..... Tudalen 19

Clywsom, er bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel gynrychioliadol, mae heriau mewn perthynas â rhaeadru'r wybodaeth honno i sefydliadau darparu unigol a staff rheng flaen. Tudalen 19

Rydym yn cydnabod ein rôl ni o ran sicrhau bod gan y cyhoedd a'r gymdeithas sifil yng Nghymru fynediad at wybodaeth ddibynadwy ac awdurdodol wrth i broses Brexit ddatblygu. Felly, hoffem dynnu sylw at y diweddariadau Brexit rheolaidd a gynhyrchir gan Wasanaeth Ymchwil diduedd y Cynulliad, a gyhoeddir ar **ein gwefan**..... Tudalen 19

Rydym ni'n rhannu pryderon rhanddeiliaid y byddai colli arian Ewropeaidd yn y dyfodol yn her i wasanaethau a sefydliadau yng Nghymru. Tudalen 22

Rydym yn ailadrodd ein barn a fynegwyd yn flaenorol na ddylai Cymru fod yn waeth ei byd o ran cyllid cyfatebol, o ganlyniad i adael yr UE, nag y byddai pe byddai Cymru wedi aros yn yr UE..... Tudalen 22

Rydym yn cydnabod pryderon a fynegir gan rhanddeiliaid mewn perthynas â newidiadau i reolau mewnfudo ar ôl Brexit a byddwn yn parhau i gadw llygad ar y sefyllfa o ran camau gweithredu Llywodraeth y DU yn y maes hwn wrth i broses Brexit ddatblygu..... Tudalen 23

Rydym yn cydnabod y fenter a ddangosir gan Lywodraeth Cymru wrth gynhyrchu papur safbwynt ar newidiadau i reolau rhyddid symud ar ôl Brexit. Byddem hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar oblygiadau Brexit o ran cynllunio gweithlu ar draws y sector cyhoeddus..... Tudalen 24

Tynnodd rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus ein sylw at yr amrywiaeth o ffyrdd y gallai Brexit effeithio ar wasanaethau a darparu gwasanaethau. Bydd angen ymdrech ar draws y llywodraeth o ran ymateb Cymru. Byddwn yn ysgrifennu at bwylgorau pwnc perthnasol eraill yn y Cynulliad Cenedlaethol i ddwyn eu sylw at feysydd o ddiddordeb ac er mwyn helpu i hwyluso craffu ar Ysgrifenyddion eraill y Cabinet..... Tudalen 24

Rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan WCVA ac yn bwriadu archwilio goblygiadau Brexit ar gyfer cydraddoldebau yn ystod tymor y gwanwyn 2018..... Tudalen 24

Rydym hefyd yn nodi bod gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar oblygiadau Brexit ar gyfer hawliau dynol yn parhau ar hyn o bryd..... Tudalen 24

Cawsom lawer o dystiolaeth yn ymwneud â phwysigrwydd mynediad parhaus i raglenni'r UE ar ôl Brexit. Rydym yn bwriadu archwilio'r materion hyn yn fanylach fel rhan o'n hymchwiliad newydd i berthynas Cymru yn y dyfodol gyda'r UE..... Tudalen 25

Credwn fod rôl bwysig i'r sector addysg uwch ei chwarae wrth baratoi Cymru am y cyfleoedd posibl ar ôl Brexit. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi'r risgiau posib i'r sector o ganlyniad i golli mynediad at gyllid, a symudedd staff ymchwil yn benodol..... Tudalen 26

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad o gyllid newydd i baratoi busnesau a sefydliadau ac edrychwn ymlaen at graffu ar ddefnyddio'r arian hwn yn ystod y misoedd nesaf..... Tudalen 28

1. Cyflwyniad

1. Yn ein gwaith hyd yn hyn, rydym wedi clywed nifer o weithiau gan dystion am bwysigrwydd paratoi Cymru ar gyfer y gwahanol sefyllfaoedd y gallem eu hwynebu pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

2. Nod ein hymchwiliad oedd edrych yn fanylach ar fater gwydnwch a pharodrwydd Cymru yng nghyd-destun Brexit. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd i archwilio:

- ymateb gweinyddol ac ariannol mewnol Llywodraeth Cymru i Brexit; a
- sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus, addysg uwch, y trydydd sector a'r sectorau economaidd i baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd.

3. Er mwyn llywio ein gwaith, cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus a derbyniwyd 13 o ymatebion ysgrifenedig. Hefyd, cawsom sesiynau tystiolaeth ffurfiol ac anffurfiol gyda thystion a rhanddeiliaid. Cynhaliwyd y sesiynau rhanddeiliaid yng Nghaerleon, gyda staff rheng flaen yn ymwneud â gofal iechyd, yn Abertawe gyda staff a myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe, ac yn Llanelli gyda rheolwyr a staff y cwmni Calsonic Kansei. Hoffem ddiolch i'r holl bobl yr ymwelwyd â hwy am y croeso a gawsom ac am eu cyfraniad gwerthfawr i'n hymchwiliad.

2. Cynllunio sefyllfaoedd ac ymgysylltu

2.1. Cynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd Brexit

5. Roedd cynllunio sefyllfaoedd, a'r graddau y dylai Llywodraeth Cymru fod yn modelu effeithiau posibl gwahanol ganlyniadau cyd-drafod i Gymru er mwyn llywio cynllunio, yn ystyriaeth allweddol yn ystod ein hymchwiliad.¹ Yn ystod ein sesiwn gosod sefyllfaoedd gyda Michael Trickey, Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025, a Dr Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan, gofynnwyd iddynt yn benodol am gynllunio sefyllfaoedd. Esboniodd Michael Trickey:

“We saw you a year ago, and I don't think we're actually very much more advanced in our understanding of the implications of Brexit than we were a year ago. And the breadth of issues, which are quite significant issues in terms of Cyllid and the economy and rheoliad, and so on, and the span of possibilities for all those issues, from 'no deal' at one extreme to colleagues of ours who've told us that they think Brexit might not happen at all, at the other end of the extreme. So, in a sense, we are in an extraordinary situation of having to copio with a potentially very wide span of possibilities from where we are now, and that's going to require some very, in terms of capacity of Government and of organisations, to handle this. It is, I think, something that still hasn't been fully recognised.”²

6. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cydnabu Cydffederasiwn GIG Cymru (WNHSC) yr anawsterau a wynebir gan Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun cynllunio ar gyfer Brexit.³ Ar yr un pryd, yn ystod tystiolaeth lafar, eglurodd Vanessa Young, Cyfarwyddwr y WNHSC, unwaith y bo modd sefydlu beth yw'r sefyllfaoedd posib, yna byddai sefydliadau'n gallu dechrau meddwl am yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob canlyniad.⁴

7. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wrthym y byddent yn hoffi gweld cyngor cynllunio busnes fferm penodol yn ymwneud â'r gwahanol sefyllfaoedd masnachu ar ôl Brexit.⁵ Yn yr un modd, dangosodd tystiolaeth gan Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) wendidau penodol sector amaethyddiaeth

¹ **RPB04 Cyngor Sir Penfro**

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, **paragraff 7** - 23 Hydref 2017

³ **RPB01 Conffederasiwn GIG Cymru**

⁴ Cofnod y Trafodion, **paragraffau 212-213** - 23 Hydref 2017

⁵ **RPB09 yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

Cymru - yn arbennig y diwydiant cig coch - i newidiadau yng nghyd-destunau masnach y DU ar ôl Brexit.⁶ Yn ogystal, galwodd yr FUW ar Lywodraeth Cymru i fesur effeithiau posibl gwahanol sefyllfaoedd yn dilyn Brexit, er mwyn llywio polisi Llywodraeth Cymru, gwneuthurwyr polisi eraill a busnesau unigol.⁷

8. Dywedodd Cyngor Sir Penfro wrthym:

“Yr hyn sydd ei angen yw rhyw ffordd i ddileu rhywfaint o’r ansicrwydd hwn er mwyn darparu cyfle lle gall ymatebion polisi gael eu ffurfio. Gellir gwneud hyn drwy symleiddio nifer y posibiladau yn y dyfodol yn nifer bach o sefyllfaoedd yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn y trafodaethau Brexit, datganiadau gan Lywodraeth San Steffan, y Comisiwn Ewropeaidd ac eraill, tystiolaeth economaidd-gymdeithasol ac ymchwil academaidd o safon uchel, ac yn y blaen.”⁸

9. Dywedodd nifer o dystion, gan gynnwys rhanddeiliaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, wrthym y byddai’n ddefnyddiol i gael arweiniad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sefyllfaoedd. Dywedodd Victoria Winckler wrthym hefyd:

“Just simply breaking down what the issues are for public sector organisations is in itself quite helpful. It seems to us that those are around trade and the supply chain, workforce issues, changes to regulations, changes in public finance and then how you prepare for all that.”⁹

10. Dadleuodd Cyngor Sir Penfro mai’r ffordd o adnabod y sefyllfaoedd hyn yw ar lefel Cymru gyfan gan Lywodraeth Cymru, a’i rannu â sefydliadau ledled Cymru.¹⁰

11. Yn ystod tystiolaeth lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynllunio sefyllfaoedd o’r cychwyn, ond ei bod yn anodd o gofio nad ydym yn gwybod beth yw’r sefyllfaoedd gorau i dargedu ein hymdrechion atynt.¹¹ Amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yr asesiadau effaith a gynhyrchwyd hyd yn hyn, gan gynnwys y Papur Gwyn **Sicrhau Dyfodol Cymru. Adroddiad y Prif Economegydd 2017** a

⁶ **RPB13 Undeb Amaethwyr Cymru**

⁷ Ibid.

⁸ **RPB04 Cyngor Sir Penfro**

⁹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 78** – 23 Hydref 2017

¹⁰ **RPB04 Cyngor Sir Penfro**

¹¹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 9** – 20 Tachwedd 2017

phapur safbwynt Llywodraeth Cymru ar ymfudiad.¹² Dywedodd hefyd fod gwaith pellach, gan gynnwys ar y polisi masnach yn y dyfodol, yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.¹³

Ein barn ni

Rydym yn pryderu am oblygiadau ansicrwydd parhaus ynglŷn â chanlyniad y trafodaethau Brexit rhwng Llywodraeth y DU a'r UE yn y pen draw, ac yn cydnabod yr her y mae hyn yn ei chyflwyno o ran parodrwydd Llywodraeth Cymru, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen â chynllunio ar gyfer Brexit yw ar lefel Cymru gyfan, ac y dylai Llywodraeth Cymru arwain ar hynny.

2. 2. Bargen ai peidio?

12. Ar y mater o fethu â tharo bargen, dywedodd Michael Trickey wrthym fod y sefyllfa o fethu â tharo bargen, a oedd ar un adeg yn ymddangos yn bosibilrwydd bach iawn, wedi troi'n bosibilrwydd llawer mwy byw dros y misoedd diwethaf.¹⁴ Cytunodd Victoria Winckler, gan ychwanegu bod posibilrwydd go iawn o beidio â tharo bargen neu gael bargen gyfyngedig iawn o ran Brexit.¹⁵ Dywedodd Dr Winckler hefyd fod angen gwneud gwaith i bennu'r paramedrau bras o'r hyn y gallai amrywiol sefyllfaoedd, yn cynnwys sefyllfa lle na cheir bargen, ei olygu.¹⁶

13. Cydnabu Dr Winckler a Mr Trickey, er y gallai'r ystod eang o ganlyniadau'r cyddrafod posibl olygu ei bod yn anodd i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus gynllunio sefyllfaoedd a chreu cynlluniau wrth gefn, ymddengys fod unrhyw gynllunio sefyllfaoedd a wnaed hyd yn hyn yn gymharol gyfyngedig.¹⁷ At hynny, dywedodd Mr Trickey, er bod sefydliadau ymbarél yn ymgysylltu â Brexit, roedd y mater yn teimlo'n bell iawn i ffwrdd ar lefel sefydliadau darparu unigol.¹⁸

14. Yn ystod ein sesiynau tystiolaeth yng Nghwmbwrân, Abertawe a Llanelli, dywedodd nifer o randdeiliaid wrthym y byddai'n ddefnyddiol cael arweiniad gan

¹² Cofnod y Trafodion, **paragraff 16** - 20 Tachwedd 2017, [Tystiolaeth ysgrifenedig - Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid](#).

¹³ Cofnod y Trafodion, **paragraff 16** - 20 Tachwedd 2017.

¹⁴ Cofnod y Trafodion, **paragraff 11** - 23 Hydref 2017

¹⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 12** - 23 Hydref 2017

¹⁶ Cofnod y Trafodion, **paragraff 4** - 23 Hydref 2017

¹⁷ Cofnod y Trafodion, **paragraffau 17-19** - 23 Hydref 2017

¹⁸ Cofnod y Trafodion **paragraff 18** - 23 Hydref 2017

Lywodraeth Cymru ar ba sefyllfaoedd y dylent fod yn eu hystyried, gan gynnwys sefyllfa bosibl lle na fydd bargaen yn cael ei tharo.¹⁹ Mynegodd rhai cyfranogwyr yn Calsonic Kansei yn Llanelli y farn bod diffyg brys o ran paratoi ar gyfer y gwahanol sefyllfaoedd Brexit y gallai Cymru eu hwynebu.²⁰

15. Mynegodd y cyfranogwyr yn y sesiynau rhanddeiliaid ym Mhrifysgol Abertawe bryder ynghylch diffyg eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch yr hyn y byddai methu â tharo bargaen yn ei olygu'n ymarferol.²¹ Roedd ymdeimlad hefyd gan randdeiliaid nad oedd Brexit bob amser ar y rhestr o flaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer sefydliadau unigol. Er enghraifft, dywedodd staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod staff yn teimlo bod gormod o bwysau arnynt a'i fod yn anodd meddwl am Brexit wrth wynebu cymaint o heriau a phrinderau o ddydd i ddydd.²²

16. Tynnodd sylw adroddiad diweddar Tŷ'r Arglwyddi gan Bwyllgor yr Undeb Ewropeaidd yn ddiweddar, "Brexit: deal or no deal", at y niwed posibl i economi'r DU o ganlyniad i fethu â tharo bargaen.²³ At hynny, tynnodd yr adroddiad sylw at effaith negyddol ansicrwydd parhaus a gwerth cyfyngedig cytundeb pontio os na ellir dod i gytundeb cyn Mawrth 2018. Nododd yr adroddiad:

"There is still a risk of a chaotic 'no deal' Brexit, and for the reasons we have set out in this report, we are not confident that a legally certain and binding transition deal can be reached by March 2018, the point at which uncertainty is likely to inflict more serious damage on the UK economy."²⁴

17. Mewn perthynas â'r mater o gynllunio ar gyfer sefyllfa lle na cheir bargaen, dadleuodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai "dim bargaen" yn drychinebus i economi Cymru a bod ffocws Llywodraeth Cymru ar gyfathrebu hynny i Lywodraeth y DU i atal cael "dim bargaen" fel canlyniad.²⁵ Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"If anybody thinks that that amounts to a plan to protect yourself against a no-deal Brexit, then I'm saying to them that I don't think that

¹⁹ **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

²⁰ **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

²¹ **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

²² **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

²³ Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd "**Brexit: deal or no deal**" – 5 Rhagfyr 2017

²⁴ Ibid.

²⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 11** - 20 Tachwedd 2017

that is the case. No amount of public money, no amount of preparation, will avoid the harm that will be done to Wales and its economy by leaving the European Union without a deal. [...]

But I think we are fooling ourselves if we believe that that sort of detailed preparation amounts to an ability to withstand the impact of a no-deal on Wales.

That's why I say that the idea that you can simply plan for it, as though this was all overcome-able by a plan—I don't think that that adequately describes to people in Wales what the impact of a no-deal basis of leaving the European Union would actually be like for them.”²⁶

18. Hefyd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym, yn ei sgwrsiau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ymadael â'r UE:

“He is completely clear that he is focused on making a deal. That is his intention; that is his plan. He is not planning for no deal. He may have to be thinking about what would happen if there wasn't one, but that is not his intention—that's not what the UK Government, he says, is in this to achieve.”²⁷

Ein barn ni

Rydym yn cydnabod bod y posibilrwydd o 'ddim bargaen' yn y trafodaethau Brexit ac mae gennym bryderon difrifol ynghylch y goblygiadau (y mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn nes ymlaen yn yr adroddiad) y gallai hyn eu cael ar wasanaethau cyhoeddus Cymru ac economi Cymru.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod llywodraethau (gan gynnwys ar lefel is-wladwriaeth) mewn mannau eraill yn yr UE, a'r Comisiwn Ewropeaidd ei hun, yn cynllunio ar gyfer sefyllfa “dim bargaen” fel un o'r canlyniadau posibl yn y broses Brexit.

Rydym yn cytuno y dylid ceisio trefniadau pontio, fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi barn Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi mai ychydig o werth fydd i drefniadau pontio o'r fath os na chytunir arnynt yn chwarter cyntaf 2018. Rydym hefyd yn cydnabod, er bod y ddwy ochr (o'r trafodaethau) yn cydnabod bod angen cyfnod pontio mae amwysedd yn parhau o ran penderfynu ar y pwynt gorffen penodedig y bydd y DU yn y pen draw yn pontio iddo.

²⁶ Cofnod y Trafodion, **paragraffau 65 hyd 67** - 20 Tachwedd 2017

²⁷ Cofnod y Trafodion, **paragraff 69** - 20 Tachwedd 2017

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ar frys paramedrau tebygol gwahanol sefyllfaoedd Brexit, gan gynnwys “sefyllfa dim bargaen”, ac adrodd ar gynnydd o fewn 6 mis.

2. 3. Aseidiadau Effaith

19. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:

“Work on European transition within the Economy and Infrastructure portfolio is being led by senior officials across the department, and teams whose policy areas are affected by Brexit are also considering the implications of European transition as part of their day to day work. The focus has largely been on working with businesses to discuss the implications of Brexit for them, and to identify how and where support can best be offered. In addition, officials have been engaging with the UK Government on matters that are principally its responsibility, but which have significant implications for Welsh Government responsibilities, e.g. detailed work on the implications for Welsh ports and other infrastructure of potential new customs arrangements.”²⁸

20. Mewn gohebiaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil gan Ysgol Fusnes Caerdydd er mwyn deall y ffordd y mae cwmnïau mwy yn paratoi ar gyfer Brexit.²⁹ Disgwylir i'r ymchwil hwn gael ei gyhoeddi yn gynnar eleni.

21. Ar 3 Gorffennaf 2017 (fel rhan o'n hymchwiliad i oblygiadau Brexit ar gyfer porthladdoedd Cymru), dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wrthym fod dadansoddiad yn ôl sector o effeithiau Brexit ar naw sector blaenoriaeth Llywodraeth Cymru wedi cael ei gynnal.³⁰

Ein barn ni

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r naw dadansoddiad sectoraidd a ddisgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a chanlyniad yr ymchwil sydd i ddod gan Ysgol Fusnes Caerdydd.

²⁸ **Tystiolaeth Ysgrifenedig - Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**

²⁹ **PTN5 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynglŷn â gwydnwch a pharodrwydd**

³⁰ Cofnod y Trafodion, **paragraff 31** - 3 Gorffennaf 2017

2. 4. Ymgysylltu a chyfathrebu

22. Dywedodd Michael Trickey wrthym am bwysigrwydd ymgysylltiad rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd:

“things that public services say to us are that it would be helpful just to have a regular statement about the process – so, where things are at in terms of the Welsh Government and the negotiation Process.”³¹

23. Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA):

“Mae ar y sector angen deialog clir, agored a hygyrch ynglŷn ag i ba gyfeiriad rydym yn mynd. Mae’n hynod o anodd ymgysylltu â thrafodaeth Brexit os na wyddom beth rydym yn ymgysylltu ag ef. [...] Mae WCVA yn credu ei bod yn hanfodol bod y trydydd sector a chymdeithas sifil ehangach yn cael eu cynnwys yn llawn mewn dadleuon a phenderfyniadau ynghylch Brexit er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bawb.”³²

24. Amlygodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) bwysigrwydd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.³³ Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig tynnodd CLILC sylw at nifer o ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol y mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys awdurdodau lleol, gan gynnwys trwy Grŵp Ymgynghorol yr UE, cyhoeddi papurau safbwynt Llywodraeth Cymru a’r gweithgor amgylchedd a materion gwledig.³⁴ Yn benodol, roedd CLILC yn canmol y dull cynhwysol a fabwysiadwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, rhywbeth y byddai’n hoffi ei weld yn cael ei ddyblygu mewn meysydd eraill.

25. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) wrthym, er bod CLILC ar hyn o bryd yn gweithredu fel cyfryngwr, roedd yr awdurdod lleol yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gyfathrebu gyda’r rhai sy’n gyfrifol am weithredu rhaglenni’r UE ar hyn o bryd.³⁵

26. Dywedodd Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru (yr AoMRCW) nad oeddent wedi derbyn unrhyw gyngor, cefnogaeth na chymorth gan Lywodraeth

³¹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 53** – 23 Hydref 2017

³² **RPB10 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

³³ **RPB11 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

³⁴ **RPB11 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

³⁵ **RPB12 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Cymru hyd yn hyn. Ychwanegodd yr AoMRCW y byddent yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth baratoi ar gyfer Brexit.³⁶

27. Dywedodd Canolfan Cydweithredol Cymru wrthym y bydd angen mwy o gymorth a chefnogaeth ar fusnesau cymdeithasol i gwrdd â heriau Brexit.³⁷ Yn ystod ein hymweliad â Calsonic Kansei, dywedodd rhanddeiliaid wrthym, er bod y cwmni wedi bod yn edrych ar y gwahanol sefyllfaoedd a allai ddatblygu ar ddiwedd y broses Brexit, bod ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfyngedig.³⁸

28. Hefyd, dywedodd Vanessa Young, Cyfarwyddwr y WNHSC, y byddai mwy o gyfathrebu gan Lywodraeth Cymru yn cael ei groesawu, gan nodi:

“at the moment we’re a bit reliant on what we hear in the news or what we read in newspapers as to the next set of developments.”³⁹

29. Yn ystod tystiolaeth lafar, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod ymgysylltu â materion Brexit gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnal yn bennaf ar lefel gynrychioliadol.⁴⁰ Ar yr un pryd, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod anawsterau'n gysylltiedig â rhaeadru'r wybodaeth honno i lawr i'r lefel weithredol.⁴¹

Ein barn ni

Mae ymdeimlad clir o'r dystiolaeth nad oes gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i baratoi'n ddigonol ar gyfer Brexit. At hynny, mae diffyg eglurder gan Lywodraeth y DU, a'r ystod eang posibl o sefyllfaoedd a allai godi o hyd hefyd yn rhwystro gallu gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector, ac eraill yn sylweddol o ran cynllunio a pharatoi'n ddigonol ar gyfer Brexit.

Clywsom, er bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel gynrychioliadol, mae heriau mewn perthynas â rhaeadru'r wybodaeth honno i sefydliadau darparu unigol a staff rheng flaen.

Rydym yn cydnabod ein rôl ni o ran sicrhau bod gan y cyhoedd a'r gymdeithas sifil yng Nghymru fynediad at wybodaeth ddibynadwy ac awdurdodol wrth i

³⁶ [**RPB08 Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru**](#)

³⁷ [**RPB02 Canolfan Cydweithredol Cymru**](#)

³⁸ [**Crynodeb o drafodaethau rapporteur**](#)

³⁹ [**RPB08 Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru**](#)

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, [**paragraff 47**](#) – 20 Tachwedd 2017

⁴¹ Cofnod y Trafodion, [**paragraff 51 a 56**](#) – 20 Tachwedd 2017

broses Brexit ddatblygu. Felly, hoffem dynnu sylw at y diweddariadau Brexit rheolaidd a gynhrychir gan Wasanaeth Ymchwil diduedd y Cynulliad, a gyhoeddir ar **ein gwefan**.⁴²

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella cyfathrebu â sefydliadau unigol trwy annog mwy o gyrff cynrychioliadol i raeadru gwybodaeth i'r sefydliadau hynny. Rydym hefyd yn argymell bod sefydliadau unigol yn ymgymryd ag ymgysylltu dwy ffordd ynghylch Brexit o fewn eu strwythurau eu hunain.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad clir a hygyrch i fusnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar yr hyn y gallai goblygiadau gwahanol sefyllfaoedd Brexit, gan gynnwys sefyllfa "dim bargaen", ei olygu i'r sefydliadau hynny. Dylai'r arweiniad hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

⁴² Ewch i www.cynulliad.cymru/SeneddMADY a chliciwch ar "**Y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gadael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit)**".

3. Parodrwydd gwasanaethau cyhoeddus a'r economi

3.1. Parodrwydd mewn perthynas â goblygiadau ariannol Brexit

30. Clywsom gan nifer o randdeiliaid mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar am yr heriau y bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn eu hwynebu o ganlyniad i Brexit. Roedd llawer o'r pryderon hyn yn canolbwyntio ar y goblygiadau ar gyfer cyllid. Ar hyn o bryd mae Cymru'n fuddiolwr sylweddol o ran cyllid Ewropeaidd, sef tua £680 miliwn y flwyddyn.⁴³

31. Mewn perthynas â chyllid, dywedodd Canolfan Cydweithredol Cymru, yn dilyn arolwg o'r sector busnes cymdeithasol, wrthym:

“they are concerned their future trading environment is going to be affected adversely by leaving the EU, in particular from the loss of European funding and from the wider impact on the economy.”⁴⁴

32. Roedd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg (“y Comisiynydd”) hefyd yn bryderus ynghylch colli mynediad i arian Ewropeaidd ar ôl Brexit, ac amlygodd y canlyniadau posib negyddol y gallai hyn eu cael ar brosiectau sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg.⁴⁵

33. Cytûn: Roedd gan Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) bryderon hefyd ynghylch colli arian Ewropeaidd yng Nghymru. At hynny, mynegodd Cytûn bryderon ynghylch y Gronfa Rhannu Ffyniant arfaethedig (i gymryd lle cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd), gan ddadlau y dylai Llywodraeth Cymru (yn hytrach na Llywodraeth y DU) roi arian i unrhyw gronfa yn y dyfodol ar sail angen yn hytrach na chyfran poblogaeth.⁴⁶

34. Roedd gan Dr Tim Peppin o CLILC bryderon tebyg ynghylch y Gronfa Rhannu Ffyniant arfaethedig gan nodi y dylid dyrannu cyllid yn y dyfodol i Gymru i weithredu o fewn cyd-destun Cymreig.⁴⁷ Adleisiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) y pryderon hyn gan nodi:

⁴³ **PTN5 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Cyllid ynglŷn â gwydnwch a pharodrwydd**

⁴⁴ **RPB02 Canolfan Cydweithredol Cymru**

⁴⁵ **RPB06 Comisiynydd y Gymraeg**

⁴⁶ **RPB07 Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru**

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, **paragraff 238** - 23 Hydref 2017

“Welsh Government should oppose the concept of a Shared Prosperity Fund administered at the UK level.”⁴⁸

35. Dywedodd CBSC hefyd:

“the amount of funding available to Wales should be no less than if the UK had remained in the EU.”⁴⁹

36. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym yn ei bapur ei bod yn hanfodol cael sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gael yr un lefel o gyllid o leiaf â'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd ac ni fydd y cyllid hwn yn destun unrhyw gyfyngiadau newydd gan Lywodraeth y DU neu frigidorian.⁵⁰

37. Ar 8 Rhagfyr 2017, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet fwy o fanylion o ran dull Llywodraeth Cymru tuag at ddyfodol cyllid buddsoddi rhanbarthol trwy gyhoeddi papur safbwynt: “Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit”.⁵¹

Ein barn ni

Rydyn ni'n rhannu pryderon rhanddeiliaid y byddai colli arian Ewropeaidd yn y dyfodol yn her i wasanaethau a sefydliadau yng Nghymru.

Rydym yn ailadrodd ein barn a fynegwyd yn flaenorol na ddylai Cymru fod yn waeth ei byd o ran cyllid cyfatebol, o ganlyniad i adael yr UE, nag y byddai pe byddai Cymru wedi aros yn yr UE.

Argymhelliad 5. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio eglurder gan Lywodraeth y DU ar sut y byddai'r Gronfa Rhannu Ffyniant arfaethedig yn cael ei dyrannu a'i gweinyddu.

3. 2. Newidiadau i reolau mewnfudo

38. Yn ystod ein sesiwn i randdeiliaid ym Mhrifysgol Abertawe, mynegodd llawer o gyfranogwyr bryderon y gallai newidiadau i reolau mewnfudo ar ôl Brexit fod yn her i'r sector prifysgolion.⁵² Er enghraifft, nododd llawer fod myfyrwyr rhyngwladol yn cymorthdalau myfyrwyr cartref ar hyn o bryd a dywedodd y gallai unrhyw beth sy'n ei gwneud hi'n anoddach i fyfyrwyr o dramor ddod i Gymru danseilio'r ffrwd

⁴⁸ **RPB12 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

⁴⁹ Ibid.

⁴⁹ **Tystiolaeth Ysgrifenedig - Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**

⁵¹ Llywodraeth Cymru, **Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit** – 8 Rhagfyr 2017

⁵² **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

incwm hon.⁵³ Yn yr un modd, tynnodd y cyflwyniad gan Brifysgolion Cymru sylw at y ffaith y byddai gostyngiad mewn recriwtio myfyrwyr o'r UE yn arwain at oblygiadau ariannol sylweddol i'r sector. Galwodd Prifysgolion Cymru ar Lywodraeth Cymru i:

“publicly affirm the value placed on EU students and their contribution to Welsh universities, invest in supporting future recruitment overseas through promotional activity, and provide reassurances to current EU students that they will remain welcome in Wales following its departure from the EU.”⁵⁴

39. Amlygodd rhanddeiliaid yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol fod dibyniaeth fawr wedi bod ar recriwtio dramor oherwydd heriau recriwtio presennol neu hirdymor.⁵⁵ Yn yr un modd, dadleuodd WNHSC y dylid cydnabod iechyd a gofal cymdeithasol fel sector blaenoriaeth ar gyfer recriwtio dramor ar ôl Brexit.⁵⁶

40. Hefyd, dywedodd cyfranogwyr ym Mhrifysgol Abertawe wrthym na ddylai'r setliad terfynol mewn perthynas â rhyddid symud pobl effeithio ar raglenni symudedd rhyngwladol megis Erasmus+ ac y dylai'r DU drafod cytundeb trydydd parti i barhau i gael mynediad at raglenni o'r fath.⁵⁷

41. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei safbwynt o'r blaen mewn perthynas â newidiadau i reolau mewnfudo ar ôl Brexit yn ei phapur “Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl”.⁵⁸ Mae'r papur yn cynnig cysylltu ymfudo'n agosach â chyflogaeth a hefyd mae'n nodi na ddylid cyfrif myfyrwyr fel ymfudwyr at ddibenion ffigurau mudo net.⁵⁹

Ein barn ni

Rydym yn cydnabod pryderon a fynegir gan randdeiliaid mewn perthynas â newidiadau i reolau mewnfudo ar ôl Brexit a byddwn yn parhau i gadw llygad ar y sefyllfa o ran camau gweithredu Llywodraeth y DU yn y maes hwn wrth i broses Brexit ddatblygu.

⁵³ **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

⁵⁴ **RPB05 Prifysgolion Cymru**

⁵⁵ **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

⁵⁶ **RPB01 Conffederasiwn GIG Cymru**

⁵⁷ **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, “**Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl**” – 7 Medi 2017

⁵⁹ Ibid.

Rydym yn cydnabod y fenter a ddangosir gan Lywodraeth Cymru wrth gynhyrchu papur safbwynt ar newidiadau i reolau rhyddid symud ar ôl Brexit. Byddem hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar oblygiadau Brexit o ran cynllunio gweithlu ar draws y sector cyhoeddus.

Tynnodd rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus ein sylw at yr amrywiaeth o ffyrdd y gallai Brexit effeithio ar wasanaethau a darparu gwasanaethau. Bydd angen ymdrech ar draws y llywodraeth o ran ymateb Cymru. Byddwn yn ysgrifennu at bwyllgorau pwnc perthnasol eraill yn y Cynulliad Cenedlaethol i ddwyn eu sylw at feysydd o ddiddordeb ac er mwyn helpu i hwyluso craffu ar Ysgrifenyddion eraill y Cabinet.

3. 3. Goblygiadau ar gyfer cydraddoldebau

42. O ran cydraddoldeb a hawliau dynol, disgrifiodd WCVA y ffordd yr oedd yr UE wedi gwasanaethu fel rhwyd diogelwch a mynegodd amheumon dwfn ynghylch y posibilrwydd o wanhau'r ymrwymadau hyn dros amser.⁶⁰ Dywedodd WCVA wrthym hefyd fod ganddo bryderon ynghylch absenoldeb darpariaethau yn y Bil Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i drawsnewid Siarter yr UE ar Hawliau Sylfaenol i gyfraith ddomestig ar ôl Brexit.

Ein barn ni

Rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan WCVA ac yn bwriadu archwilio goblygiadau Brexit ar gyfer cydraddoldebau yn ystod tymor y gwanwyn 2018.

Rydym hefyd yn nodi bod gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar oblygiadau Brexit ar gyfer hawliau dynol yn parhau ar hyn o bryd.

3. 4. Goblygiadau ar gyfer iechyd

43. Dywedodd WHNSC wrthym am bwysigrwydd cydweithrediad parhaus rhwng yr UE a'r DU mewn meysydd megis atal clefydau, iechyd y cyhoedd a rheoleiddio technolegau iechyd.⁶¹ Adleisiwyd y safbwyntiau hyn gan AoMRCW a nododd y canlynol fel meysydd allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r trafodaethau ymadael:

- cydnabod cymwysterau meddygol;

⁶⁰ **RPB10 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

⁶¹ **RPB01 Conffederasiwn GIG Cymru**

- cynnal cysylltiadau ymchwil meddygol a chyllid;
- cydweithrediad parhaus ar faterion iechyd y cyhoedd;
- trefniadau gofal iechyd cyfatebol; a
- rheoleiddio dyfeisiau meddygol.⁶²

Ein barn ni

Cawsom lawer o dystiolaeth yn ymwneud â phwysigrwydd mynediad parhaus i raglenni'r UE ar ôl Brexit. Rydym yn bwriadu archwilio'r materion hyn yn fanylach fel rhan o'n hymchwiliad newydd i berthynas Cymru yn y dyfodol gyda'r UE.

3. 5. Ymchwil ac arloesi

44. Mynegodd y sectorau addysg uwch ac iechyd bryderon ynglŷn â goblygiadau Brexit ar gyfer cydweithio o ran ymchwil ac arloesi. Dywedodd WNHSC fod gan y GIG draddodiad hir o ymchwil gydweithredol gyda'r UE, ac nad yw cyfranogiad tebyg mewn ymchwil ar y cyd yn bosibl gyda rhanbarthau eraill y byd.⁶³ Mynegodd yr AoMRCW yr un pryderon, a goblygiadau llai o gydweithio o ran treialon clinigol yng Nghymru.

45. Yn yr un modd, nododd Prifysgolion Cymru golli cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi, a niwed i gydweithio ymchwil rhyngwladol fel gwendidau allweddol mewn perthynas â Brexit.⁶⁴ At hynny, roedd eu papur yn amlygu'r risgiau i gydweithio ar ymchwil pe na bai'r DU yn negodi cytundeb ar ddiwedd cyfnod Erthygl 50, lle byddai'r DU yn cael ei darostwng i statws trydedd wlad o fewn Horizon 2020.⁶⁵

46. Dywedodd rhanddeiliaid ym Mhrifysgol Abertawe wrthym fod prifysgolion yng Nghymru yn arbennig o ddibynnol ar gyllid yr UE, gyda thua 40 y cant o gyllid Abertawe yn dod o ffynonellau yr UE.⁶⁶ Ar ben hynny, teimlai'r cyfranogwyr fod gan brifysgolion yng Nghymru berthynas dda â sefydliadau a oedd yn gweinyddu cyllid ym Mrwsel, ond yn llai felly gyda'r rhai oedd yn gweinyddu cyllid ar lefel y DU

⁶² [RPB08 Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru](#)

⁶³ [RPB01 Conffederasiwn GIG Cymru](#)

⁶⁴ [RPB05 Prifysgolion Cymru](#)

⁶⁵ Ibid.

⁶⁶ [Crynodeb o drafodaethau rapporteur](#)

a nodwyd nad oedd yr un brifysgol yng Nghymru yn derbyn cyllid fel rhan o don gyntaf y buddsoddiad Arloesi yn y DU diweddar.⁶⁷

Ein barn ni

Credwn fod rôl bwysig i'r sector addysg uwch ei chwarae wrth baratoi Cymru am y cyfleoedd posibl ar ôl Brexit. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi'r risgiau posib i'r sector o ganlyniad i golli mynediad at gyllid, a symudedd staff ymchwil yn benodol.

Argymhelliad 6. Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru - ar y cyd â'r Gweithgor Addysg Uwch - gyhoeddi unrhyw waith a gynhaliwyd hyd yn hyn wrth adolygu ei strategaeth mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi yn y sector addysg uwch i ystyried goblygiadau Brexit yn y maes hwn.

3. 6. Parodrwydd busnes

47. O ran yr economi, dywedodd cyfranogwyr o'r sesiwn gyda Calsonic Kansei wrthym fod llawer o gwmnïau yn gohirio penderfyniadau buddsoddi ar hyn o bryd mewn ymateb i'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â chanlyniad terfynol y trafodaethau Brexit. Roeddent o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu sicrhau'r mynediad gorau posibl i'r Farchnad Sengl Ewropeaidd ar ôl Brexit ac yn croesawu safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyn.⁶⁸

48. Mewn modd tebyg, nododd Undeb Amaethwyr Cymru yn ei hymateb ei bod yn croesawu Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw'n gyson at bwysigrwydd cadw mynediad i Farchnad Sengl yr UE.⁶⁹ Yn ei bapur, fe wnaeth Undeb Amaethwyr Cymru hefyd amlygu'r risgiau sylweddol i ddiwydiant amaethyddol Cymru trwy golli mynediad i'r Farchnad Sengl, gosod tariffau ac effaith bosibl mewnforion bwyd di-dariff o bob cwr o'r byd.⁷⁰

49. Tynnodd Michael Trickey sylw hefyd at bwysigrwydd trefniadau pontio ar ôl i'r DU adael yr UE. Dywedodd Mr Trickey:

“a transition period seems to be absolutely essential in terms of the economy. If it's not there, I think we are on very, very thin ice indeed in

⁶⁷ **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

⁶⁸ **Crynodeb o drafodaethau rapporteur**

⁶⁹ **RPB13 Undeb Amaethwyr Cymru**

⁷⁰ Ibid.

terms of the economy, and the bigger organisations will take their own course.”⁷¹

50. Amlygodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg bryderon ynghylch effeithiau negyddol ehangach ar yr economi o ran cyflogaeth mewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg, gan nodi:

“Mae'n gwbl allweddol nad yw Brexit yn tanseilio'r ymdrech i greu rhagor o siaradwyr y Gymraeg na'r defnydd a wneir ohoni.”⁷²

51. Nododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (FSB Cymru) mewn tystiolaeth ysgrifenedig eu bod yn cefnogi'r pecyn cymorth Brexit £5 miliwn ar gyfer busnesau, a gytunwyd fel rhan o'r cytundeb cyllideb â Phlaid Cymru.⁷³ Dywedodd FSB Cymru wrthym y dylid defnyddio'r arian i helpu Mentrau Bach a Chanolig Cymru i asesu risg eu busnes mewn perthynas â Brexit ac y gellid cyflwyno'r gefnogaeth hon drwy Fusnes Cymru.⁷⁴

52. Ar 8 Ionawr 2018, cyhoeddodd y Prif Weinidog Gronfa Bontio'r UE newydd o £50 miliwn i roi cymorth i fusnesau a'r sector cyhoeddus baratoi ar gyfer Brexit.⁷⁵

53. Ar y mater o gyllid Llywodraeth y DU i baratoi ar gyfer Brexit, mewn llythyr i'r Pwyllgor dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“The Chief Secretary to the Treasury has confirmed we will receive a Barnett share of the £250 million being allocated from reserves in 2017-18 as set out in the Written Statement from the Chief Secretary to the Treasury on 12 October. The level of funding will be confirmed at UK Supplementary Estimates. In addition, we will also receive a Barnett share of the £3 billion allocated in the UK Budget. The level of consequential funding will be known early in the New Year once allocations to UK departments have been made.”⁷⁶

⁷¹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 108** - 23 Hydref 2017

⁷² **RPB06 Comisiynydd y Gymraeg**

⁷³ **RPB03 FSB Cymru**

⁷⁴ **RPB03 FSB Cymru**

⁷⁵ Llywodraeth Cymru, “**Cronfa £50m i helpu Cymru i baratoi ar gyfer Brexit**” – 8 Ionawr 2018

⁷⁶ **PTN5 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch gwydnwch a pharodrwydd**

Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad o gyllid newydd i baratoi busnesau a sefydliadau ac edrychwn ymlaen at graffu ar ddefnyddio'r arian hwn yn ystod y misoedd nesaf.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell fod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'n hadroddiad sut mae'n bwriadu gwario'r dyraniadau canlyniadol a ragwelir fydd yn codi o wario arian ar lefel y DU i baratoi ar gyfer Brexit ac yn egluro a fydd y rhain yn cael eu neilltuo ar gyfer cefnogi gweithgareddau mewn perthynas â Brexit yng Nghymru.

Atodiad A – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Darparodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. **Gellir gweld trawsgriadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar** ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
23 Hydref 2017	Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan Michael Trickey, Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 Vanessa Young, Cydffederasiwn GIG Cymru Y Cyngorydd Anthony Taylor, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
6 Tachwedd 2017	Rhannodd y Pwyllgor yn ddau dîm rapporteur i gynnal trafodaethau o amgylch y bwrdd gyda rhanddeiliaid. Roedd y sesiwn yng Nghaerllion ar Wysg yn canolbwyntio ar ofal iechyd. Roedd y sesiwn yn Abertawe yn canolbwyntio ar addysg uwch a'r sesiwn yn Llanelli yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu. Cyhoeddwyd crynodeb o'r trafodaethau ar Hafan yr ymchwiliad.
20 Tachwedd 2017	Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

Atodiad B – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl **ymatebion i’r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol** ar wefan y Pwyllgor.

Trefniadaeth	Cyfeirnod
Conffederasiwn GIG Cymru	<u>RPB 01</u>
Canolfan Cydweithredol Cymru	<u>RPB 02</u>
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	<u>RPB 03</u>
Cyngor Sir Penfro	<u>RPB 04</u>
Prifysgolion Cymru	<u>RPB 05</u>
Comisiynydd y Gymraeg	<u>RPB 06</u>
Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru	<u>RPB 07</u>
Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru	<u>RPB 08</u>
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.	<u>RPB 09</u>
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	<u>RPB 10</u>
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	<u>RPB 11</u>
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	<u>RPB 12</u>
Undeb Amaethwyr Cymru	<u>RPB 13</u>